# Atebion

**Llun 1**
Mae'r llun yn dangos **Pencampwriaeth y Chwe Gwlad**, sef pencampwriaeth rygbi rhwng Cymru, Lloegr, Yr Alban, Iwerddon, Ffrainc a'r Eidal sy'n cael ei chynnal ym mis Chwefror a mis Mawrth bob blwyddyn.

Mae'r gemau'n cael eu cynnal ym mhob un o'r gwledydd. Y tîm sy'n ennill y nifer fwyaf o bwyntiau sy'n ennill y bencampwriaeth.

**Llun 2**
Dyma ddathliadau **Blwyddyn Newydd China** sydd, fel arfer, yn digwydd ym mis Ionawr neu fis Chwefror, yn dibynnu ar leoliad y Lleuad. Mae pobl yn dathlu ar draws y byd.

Mae'r ŵyl yn para am 16 diwrnod ond cyn dechrau dathlu, rhaid glanhau'r tŷ'n dda, ei addurno ag addurniadau coch a pharatoi bwyd arbennig. Yn ystod yr ŵyl, mae pobl yn bwyta bwyd arbennig, gan gynnwys orennau a losin; maen nhw'n rhoi amlenni coch i'r plant sy'n cynnwys arian, ac maen nhw'n dawnsio dawns y ddraig. Mae'r ŵyl yn un hapus iawn.

**Llun 3**
Yn y llun yma, mae pobl yn taflu dŵr dros ei gilydd yn ystod Gŵyl **Songkran** yng Ngwlad Thai. Mae'r ŵyl yn digwydd rhwng Ebrill 13 ac Ebrill 15 ac mae'n dathlu'r Flwyddyn Newydd a dechrau'r gwanwyn.

Mae pobl yn dod allan i'r stryd ac maen nhw'n taflu dŵr dros ei gilydd, yn chwistrellu dŵr at ei gilydd ac yn cael llawer iawn o hwyl gyda dŵr.

**Llun 4**
Mae'r llun yn dangos pobl yn cuddio o dan fwrdd yn Japan ar **Ddiwrnod Atal Argyfwng**. Maen nhw'n ymarfer beth ddylen nhw ei wneud petai argyfwng, fel teiffŵn neu ddaeargryn, yn digwydd.

Maen nhw'n gwneud hyn ar Fedi'r cyntaf bob blwyddyn oherwydd ar y dyddiad hwnnw yn 1923, digwyddodd daeargryn ofnadwy yn ardal Tokyo a Yokohama a bu farw 140 000 o bobl.

Mae daeargrynfeydd yn berygl real iawn yn Japan. Efallai eich bod chi'n cofio daeargryn yn nwyrain Japan, a'r tswnami ddaeth ar ei ôl yn 2011, pan fu farw 19 000 o bobl.

Mae'n iawn, felly, bod plant ac oedolion yn dysgu beth i'w wneud os bydd daeargryn neu argyfwng arall.